

Cymorth cynnar, gofal a
chefnogaeth a threfniadau
trosglwyddo ar gyfer plant anabl

Cyngor Bwrdeistref
Sirol Torfaen

Cyflwyniad

Diben yr arolygiad hwn yw ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau integredig, yn darparu cymorth, gofal a help cynnar ac yn sicrhau bod cyfnod pontio plant anabl a'u teuluoedd yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Mae'r arolygiad yn nodi ymarfer sy'n ysgogi canlyniadau da i blant yn ogystal â meysydd i'w gwella a rhwystrau i gynnydd.

Gwnaethom ganolbwyntio ar brofiad plant anabl a'u teuluoedd wrth iddynt ddod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol a chael cyngor a chael eu cyfeirio at wasanaeth cymunedol, cymryd rhan mewn asesiadau a chael gofal a chymorth. Gwnaethom hefyd ystyried y gofal y mae plant anabl yn ei gael a'r ffordd y cafodd pobl ifanc gymorth i bontio i wasanaethau i oedolion.

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 oedd dwyn gwasanaethau cymdeithasol ynghyd a'u moderneiddio. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i gydweithio i hybu llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Cefnogi'r bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i sicrhau eu llesiant.
- Pobl sydd wrth wraidd y system a dylent gael cyfle cyfartal i ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- Partneriaethau a chydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Dylai gwasanaethau hybu'r broses o atal anghenion rhag gwaethygu a dylent sicrhau bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir.

'Mae Cymru lachach yn esbonio'r uchelgais o ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn i'r gwasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hybu llesiant. Mae Cymru lachach yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arwain yr arolygiad hwn, gyda chymorth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae AGC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u dathlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol, yn unol â gofynion deddfwriaeth a chodau arfer da.

Llesiant	
Cryfderau	<p>Mae'r trefniant ar gyfer taliadau uniongyrchol yn effeithlon ac mae'r rhieni yn gadarnhaol ynghylch ei ddefnyddio.</p> <p>Mae cymorth ar gael i frodyr a chwirydd plant anabl.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Dylai fod ffocws clir ar gryfderau'r plentyn a'r rhieni, ynghyd â'u canlyniadau personol sydd wedi'u nodi.</p> <p>Dylid ymweld â phlant sydd wedi bod mewn gofal yn amlach, er mwyn bodloni gofynion statudol.</p> <p>Mae'n rhaid bod cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol.</p> <p>Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gydymffurfio â'i ddyletswydd gyfreithiol i gynnig asesiad gofalmwr i rieni, a chyflwyno canllawiau i'r staff i gefnogi hyn.</p> <p>Dylai fod mwy o gyfleoedd i deuluoedd â phlant anabl gymryd seibiannau byr.</p>
Pobl – llais a dewis	
Cryfderau	<p>Mae ymarferwyr a rheolwr cefnogol ac ymroddedig yn y Tîm Plant Anabl.</p> <p>Ymateb amserol i bryderon a chwynion ynghylch gwasanaethau plant.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Mwy o sylw i lais y plentyn a'i hybu'n well drwy ei gwneud hi'n haws i blant fynychu cyfarfodydd a sicrhau mwy o fynediad at eiriolaeth ffurfiol.</p> <p>Dylid cynnal adolygiad o arferion cofnodi er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn effeithlon.</p> <p>Dylid sicrhau bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant anabl, gan gynnwys staff perthnasol yn y ganolfan diogelu a chymorth amlasiantaeth a'r tîm 16+, yn cael hyfforddiant arbenigol.</p>

	<p>Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen hefyd sicrhau ei fod yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.</p> <p>Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau yn cael ei hybu, yn gyfredol ac ar gael i bobl anabl mewn amrywiaeth o fformatau.</p> <p>Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wella ei fframwaith sicrhau ansawdd.</p>
Partneriaethau ac integreiddio	
Cryfderau	<p>Roedd gwaith amlasiantaethol effeithiol yn aml iawn yn arwain ar ganlyniadau da i'r bobl ifanc.</p> <p>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn adolygu'r trefniadau ar gyfer y plant hynny y gallai eu gofal fod yn gymwys ar gyfer trefniadau Gofal Parhaus gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Dylid sicrhau bod mwy o eglurder ymhlith ymarferwyr sy'n arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'.</p> <p>Dylid cynnal adolygiad brys o'r broses o bontio i wasanaethau i oedolion er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o oedi yn effeithio ar y bobl ifanc.</p> <p>Dylid sicrhau bod trefniadau comisiynu strategol gwell i blant anabl, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn rhagweld eu hanghenion, gan gynnwys barn y plant anabl a'u teuluoedd.</p> <p>Mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gynnal cofrestr o bobl sydd ag anabledau.</p>
Atal ac ymyrraeth gynnar	
Cryfderau	<p>Mae amrywiaeth o wasanaethau hamdden a chymorth yn y gymuned y mae plant anabl a'u teuluoedd yn eu gwerthfawrogi.</p> <p>Roedd rhai gwasanaethau cymunedol yn defnyddio mesurau gwerthuso i ddangos effeithiolrwydd.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen barhau i fonitro a oes digon o leoedd ar gael o fewn gwasanaethau cymunedol a'r amrywiaeth sydd i gefnogi teuluoedd y tu allan i wasanaethau statudol.</p>

1. Llesiant

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Mae plant anabl a theuluoedd yn cael y gofal a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir**
- **Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 1.1 Nid oedd y wybodaeth na'r cyngor a roddir i rieni bob amser yn ddigonol. Fodd bynnag, sefydlwyd canolfan diogelu a chymorth amlasiantaeth (MASSH) yn ddiweddar sydd ag adnoddau gwell i ymateb i'r ymholiadau hyn. Nododd llawer o rieni fod cyfyngiadau cyllidebol yn cael effaith uniongyrchol ar y cymorth sydd ar gael i'w plentyn ac iddyn nhw. Roedd rhai o'r farn bod trosiant ac absenoldeb ymarferwyr yn y Tîm Plant Anabl wedi cael effaith ar feithrin cydberthnasau a chyfathrebu ystyrlon â'u plentyn.
- 1.2 Gwelsom enghreifftiau da o gynllunio ar gyfer plant unigol sydd wedi bod mewn gofal, megis plentyn yn symud i mewn gyda gofalwyr maeth ar gyflymder y plentyn, a gosod plentyn arall mewn un lleoliad pwrpasol wedi'i gynllunio i addasu wrth iddo fynd yn hŷn. Gwelsom weithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrechion sylweddol i gadw plentyn anabl gartref drwy ddod o hyd i eiddo wedi'i rentu pan aeth y teulu'n ddigartref.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 1.3 Nid oeddem yn hyderus bod y plant anabl a'u teuluoedd yn cael cymorth i nodi canlyniadau unigol yr oeddent am eu cyflawni. Nid oedd canlyniadau yn cael eu cofnodi'n glir mewn asesiadau nac mewn cynlluniau gofal a chymorth. Er i ymarferwyr a rheolwyr ddweud wrthym mai problem cofnodi oedd hon, ni welsom ddigon o dystiolaeth o hyn. Mae dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau yn hollbwysig i ofal cymdeithasol yng Nghymru a dylid mynd i'r afael â nhw fel mater o flaenoriaeth.
- 1.4 Nid oedd cynlluniau gofal a chymorth yn gynhwysfawr bob amser, am nad oeddent bob amser yn cofnodi'r cymorth a'r gwasanaethau a oedd eisoes ar gael. Gwelwyd ymatebion amserol i geisiadau am gymhorthion a mân waith yn dilyn asesiad therapi galwedigaethol. Gwelsom nad oedd llawer o dystiolaeth o'r defnydd o grantiau cyfleusterau i'r anabl, ond ni chodwyd unrhyw bryderon â ni.
- 1.5 Roedd ymatebion i geisiadau i ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn amserol. Roedd rhieni a oedd yn cael taliadau uniongyrchol i drefnu gofal ar gyfer eu plant yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwelsom lawer o enghreifftiau o blant anabl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon drwy'r trefniant hwn. Bydd uwch-reolwyr am fonitro argaeledd cynorthwywyr personol wrth i'r defnydd o

daliadau uniongyrchol gynyddu o bosibl. Byddant hefyd am barhau i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gael fel bod taliadau uniongyrchol yn parhau i fod yn ddewis cadarnhaol i deuluoedd.

- 1.6 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymwybodol efallai y bydd angen mwy o gymorth emosiynol a chymdeithasol ar frodyr a chwiorydd plant anabl, ac roedd cyfleoedd i gael hyn ar gael oddi wrth y gwasanaeth gofalwyr ifanc. Cyfyngwyd ar y ddarpariaeth ar gyfer pob gofalwr ifanc am fod pwysau ar gapasiti ac yn sgil ehangu'r meini prawf oedran yn ddiweddar peryglwyd cynaliadwyedd y gwasanaeth gyda'r adnoddau presennol.
- 1.7 Roedd gwybodaeth am berfformiad yn dangos nad oedd hanner y plant sydd wedi bod mewn gofal yn gweld eu gweithwyr cymdeithasol dynodedig o fewn amserlenni statudol. Mae hyn yn annigonol ac yn faes sylweddol i'w wella. Ni allwn fod yn hyderus bod plant sydd wedi bod mewn gofal yn cael digon o gymorth gan eu gweithwyr cymdeithasol na bod lleoliad ac ansawdd y gydberthynas â'r gofalwyr yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol.
- 1.8 Dylai fod gan bobl ifanc anabl sydd wedi bod mewn gofal gynghorydd personol yn ogystal â'u hymarferydd dynodedig yn y Tîm Plant Anabl pan fyddant yn cyrraedd 16 oed. Cafodd rhai o'r bobl ifanc anabl eu neilltuo i'r tîm 16+ am nad oeddent yn bodloni'r trothwy cymhwysedd ar gyfer y Tîm Plant Anabl. Mynegodd rhai ymarferwyr yn y tîm 16+ ddiffyg hyder ynghylch gweithio gyda phobl ifanc anabl, a dylid ei ystyried a mynd i'r afael ag ef oherwydd gallai fod yn effeithio ar ansawdd y cymorth a ddarperir i'r bobl ifanc.
- 1.9 Ar y cyfan, gwelsom fod y broses ddiogelu i blant anabl yn foddhaol, er i ni weld rhai ffeiliau lle roedd angen gwella arferion diogelu. Gwelsom rai achosion lle nad oedd gweithwyr proffesiynol wedi codi pryder ynghylch y ffaith bod plentyn anabl wedi colli nifer mawr o apwyntiadau iechyd. Roedd rhai achlysuron lle gallai rheolwyr fod wedi codi pryderon gyda'r heddlu pan oedd hyd ymchwiliadau yn peri trallod i'r plant. Roeddem yn ymwybodol o gymhlethdodau lle roedd grŵp o frodyr a chwiorydd yn cynnwys plant a oedd yn anabl ac nad oeddent yn anabl. Mae'n rhaid i drefniadau diogelu gynnal trosolwg o grwpiau o frodyr a chwiorydd, gan gydnabod hefyd fod plant anabl yn arbennig o agored i gamdriniaeth.
- 1.10 Roedd gennym bryderon sylweddol nad oedd cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol bob amser yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol. Roedd y broses o wneud penderfyniadau a llunio cynlluniau gofal a chymorth ym maes diogelu i amddiffyn plant wedi'i hoedi mewn llawer o achosion. Roedd angen gwneud gwelliannau sylweddol i rai cynlluniau gofal a chymorth amddiffyn plant am nad oedd y canlyniadau, na'r ffordd y cawsant eu hasesu, yn glir.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 1.11 Er bod gan y Prif Weithredwr weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau i blant anabl yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ni wnaeth yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw gyfleu hyn. Amlinellodd aelodau o'r cyngor eu hymrwymiad i wasanaethau plant a'u rôl fel rhiant corfforaethol. Byddai'n ddefnyddiol i aelodau feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau penodol y mae

plant anabl yn eu hwynebu ac i'r bwrdd rhianta corfforaethol ganolbwyntio'n benodol ar y grŵp hwn o blant. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod am ddatblygu trefniadau cymorth mwy uchelgeisiol i blant anabl, gan gynnwys mwy o ddewisiadau o ran llety a seibiannau byr, gwell mynediad i brentisiaethau a digon o wasanaethau cymunedol.

- 1.12 Roedd y gwasanaethau plant yn cael eu hailfodelu'n sylweddol. Nid oedd y Tîm Plant Anabl wedi gweld effaith hyn eto, ond dylid ei gysoni'n fwy â gweddill y gwasanaethau plant. Mae uwch-reolwyr yn bwriadu cyflwyno model newydd o waith cymdeithasol ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant. Bydd hyn yn cynnwys dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth ac a nodir fel maes i'w wella yn yr arolygiad hwn.
- 1.13 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi sefydlu canolfan diogelu a chymorth amlasiantaeth yn ddiweddar. Roedd y ganolfan ar gam cynnar ac roedd y tîm yn cynnwys aelodau o staff yr heddlu. Rhagwelwyd y byddai cynrychiolwyr addysg ac iechyd yn cael eu cynnwys. Roedd y swyddogaeth 'drws ffrynt' yn cynnal asesiadau cymesur ac roedd yn cyfeirio pobl at wasanaethau help cynnar, a oedd yn rhyddhau'r timau plant o'r cyfrifoldeb hwn. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd y Tîm Plant Anabl yn cael budd o'r trefniant hwn am fod yr holl ymholiadau ac atgyfeiriadau perthnasol yn parhau i fynd yn syth at y Tîm Plant Anabl. Roedd hyn yn anffodus o ystyried y pwysau penodol o ran capasiti ar y Tîm Plant Anabl. Roedd uwch-reolwyr wedi nodi angen o ran hyfforddiant i staff y ganolfan diogelu a chymorth amlasiantaeth, a byddant yn mynd i'r afael â hyn. Gellid addasu'r system ar gyfer anfon ymholiadau a gwneud penderfyniadau uniongyrchol i'r Tîm Plant Anabl yn gyflym er mwyn gwella effeithlonrwydd.
- 1.14 Nid oedd rhieni'n debygol o gael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr, hyd yn oed pan oedd pwysau sylweddol arnynt. Roedd uwch-reolwyr o'r farn nad oedd angen y rhain am fod asesiadau o'r plant yn ddigon cynhwysfawr. Nid oedd yr asesiadau a welsom yn dangos tystiolaeth o hyn. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydymffurfio â'i ddyletswydd gyfreithiol i gynnig asesiad gofalwyr i rieni ac nid oedd unrhyw system ar waith i fonitro'r hyn a gynigiwyd. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i'w wella.
- 1.15 Nid oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fawr ddim cyfleusterau i ddarparu seibiannau byr dros nos i blant anabl a'u rhieni. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cymryd unrhyw gamau i gyflwyno darpariaeth newydd yn lle darpariaeth seibiant byr preswyl pan ddaeth y gwasanaeth hwn, a gomisiynwyd gan awdurdod lleol arall, i ben ychydig o flynyddoedd yn ôl. Nid oedd digon o opsiynau i rieni yr oedd angen seibiant byr dros nos arnynt a gwnaeth y rhieni godi hyn gyda ni fel pryder difrifol. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau bod y gwaith o gynllunio gwasanaethau yn canolbwyntio ar anghenion rhieni plant anabl er mwyn hybu llesiant y plant a lleihau'r posibilrwydd o deulu yn chwalu.
- 1.16 Roedd rheolwyr wedi nodi bod plant anabl wedi'u tangynrychioli yn y system ddiogelu, ond nid oeddent wedi ymchwilio i hyn ymhellach. Mae'n rhaid bod yr awdurdod lleol yn gwbl sicr bod trothwyon a gweithdrefnau diogelu yr un mor drylwyr ar gyfer plant anabl. Ni wnaethom nodi unrhyw enghreifftiau a gododd ein

pryderon. Mae uwch-reolwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cymryd rhan weithredol yn y bwrdd diogelu rhanbarthol.

2. Pobl – llais a dewis

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n sicrhau bod gan blant anabl a'u teuluoedd lais, dewis gwybodus a rheolaeth dros eu bywydau**
- **Mae arweinwyr yn effeithiol o ran sicrhau bod digon o weithwyr hyderus a medrus i hybu llesiant plant anabl**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 2.1 Gwnaethom siarad â rhieni a gwnaeth nifer bach gwblhau arolwg electronig. Yn gyffredinol, mae'r rhieni'n teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn rhan o gynllun gofal a chymorth eu plentyn. Ar y cyfan, nid oeddem yn hyderus bod ymarferwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant anabl digon er mwyn gallu cadarnhau eu dymuniadau a'u teimladau unigol. Roedd llwythi achosion uchel, newidiadau i weithwyr dynodedig a chyfnodau o lai o gymorth gan reolwyr yn ffactorau a oedd yn cyfrannu at hyn. Roedd eithriadau clir i hyn ac rydym yn cydnabod bod cyfathrebu â rhai plant anabl yn gymhleth. Roeddem yn gallu nodi barn y rhieni mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth, ac roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn gallu amlinellu anghenion y plentyn a'r gwasanaethau a oedd ar waith yn hawdd. Fodd bynnag, nid oedd llais y plentyn yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol mewn ffeiliau achos ac nid oeddem yn gallu bod yn sicr ynghylch i ba raddau yr oedd y rheolwyr wedi mynd i'r afael â hyn.
- 2.2 Ymatebodd 77 o ymarferwyr a oedd yn gweithio gyda phlant anabl i'n harolwg. Roedd hyn yn cynnwys staff yn y Tîm Plant Anabl ond hefyd staff o amrywiaeth o dimau eraill ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd bron pob aelod o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan gydweithwyr a rheolwyr i wneud eu gwaith. Roedd y sylwadau cadarnhaol pennaf yn ymwneud â rheolwyr cefnogol, hawdd mynd atynt a goruchwyliaeth reolaidd a oedd yn cynnwys trafod eu llesiant unigol. Gwnaethom nodi ethos cefnogol iawn yn y Tîm Plant Anabl ac roedd yr holl dystiolaeth y gwnaethom ei chasglu yn dangos bod rheolwr y tîm a'r ymarferwyr yn gwbl ymrwymedig ac wedi gweithio'n galed iawn mewn amgylchiadau anodd i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Roedd hyn yn ystod cyfnod lle roedd llawer o swyddi gwag/absenoldebau ar lefel staff a rheoli.
- 2.3 Roedd tri chwarter o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Roedd yr ymatebwyr o dimau eraill ym maes gwasanaethau plant yn bennaf ac felly mae'n annhebygol bod hyn yn adlewyrchu barn ymarferwyr y Tîm Plant Anabl, lle roedd llwythi achosion yn uchel. Y blaenoriaethau mwyaf cyffredin a nodwyd gan y staff oedd cynnwys y plant yn fwy yn y broses o wneud penderfyniadau a defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn fwy.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 2.4 Nid oedd y rhan fwyaf o'r plant yn mynychu cyfarfodydd i adolygu'r gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael, er bod llawer o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol. Os yw hyn am nad oedd y rhieni am i'w plentyn golli gwersi, dylid ystyried amseroedd y cyfarfodydd. Nid oeddem yn gallu nodi sut roedd dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu cynrychioli, ar wahân i ddymuniadau a theimladau eu rhieni. Gwelsom fawr ddim defnydd o eiriolaeth annibynnol, ond gwnaethom nodi bod gofawyr maeth neu athrawon yn cyflwyno barn y plentyn. Er bod hyn yn gwbl briodol mewn rhai amgylchiadau, mae angen i'r rheolwyr fod yn sicr bod y plentyn yn gallu lleisio ei deimladau ei hun mewn perthynas â lleoliadau, yr ysgol ac agweddau allweddol ar ei fywyd. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn siarad â phlant sydd wedi bod mewn gofal yn rheolaidd cyn eu cyfarfodydd a rhwng eu cyfarfodydd.
- 2.5 Efallai na fydd rhai plant am fynychu cyfarfodydd os ydynt yn cael eu cynnal yn ffurfiol ac yn cynnwys llawer o weithwyr proffesiynol. Efallai fod oedran neu lefel ddealltwriaeth y plentyn yn golygu nad yw cyfarfod yn ystyrion yn ei farn ef. Fodd bynnag, gallai uwch-reolwyr wneud mwy i ddangos eu bod yn disgwyl i'r plant fynychu cyfarfodydd a sicrhau eu bod yn ystyried ffyrdd creadigol o drefnu adolygiadau i annog y plentyn i gymryd rhan. Byddai barn plant anabl ar ddulliau gweithredu amgen yn werthfawr.
- 2.6 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn rhanbarthol, ond gwnaed llai o atgyfeiriadau na'r disgwyl ar gyfer plant anabl ac roedd yr asiantaeth wedi codi hyn gyda'r uwch-reolwyr. Rhoddwyd sawl rheswm i ni dros hyn a dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau y cynhelir hawliau plant anabl i eiriolaeth annibynnol. Bydd angen iddynt fod yn eiriolwyr hyderus gan feddu ar y sgiliau i ymgysylltu â phlant ag amrywiaeth o anabledau mewn ffordd ystyrion, ac mae'n rhaid i ymarferwyr fod yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng eu rôl i eirioli ar ran y plant ac eiriolaeth annibynnol.
- 2.7 Gwelsom dystiolaeth dda o wneud penderfyniadau yng nghofnodion goruchwylio'r staff yn cael ei adlewyrchu yn y ffeiliau achos. Nid oedd cofnodion goruchwylio yn dangos digon o dystiolaeth o fyfyrion beirniadol ar ymarfer proffesiynol fel y'i rhagnodir ym mholisi goruchwylio'r awdurdod lleol.
- 2.8 Roedd cofnodion ffeiliau achos y Tîm Plant Anabl yn gynhwysfawr. Gwnaethom nodi bod defnydd systemig o gofnodion papur a oedd yn cael eu copïo i'r system rheoli achosion electronig. Dylai'r arfer hwn gael ei adolygu oherwydd gellid ei ystyried yn system gofnodi eilaidd, gyda'r cymhlethdodau cyfreithiol a materion diogelwch data y gall hyn eu cyflwyno. Roedd ymarferwyr yn amharod i wneud cofnodion ar eu gliniaduron pan oeddent yn siarad â phobl. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ceisio barn y plant a'r rhieni am hyn. Nododd y staff eu bod am symleiddio'r gwaith cofnodi a dogfennu, a gallai fod cyfleoedd i arbed amser i'r ymarferwr.
- 2.9 Roedd rhai bylchau o ran rheolaidd-dra cyfarfodydd goruchwylio ymarferwyr, o ganlyniad i absenoldeb rheolwyr. Roedd absenoldebau a swyddi gwag yn y tîm yn amlwg yn cyfrannu at y ffaith bod unigolion yn wynebu pwysau yn y gwaith a

straen unigol. Nid oeddem yn hyderus bod digon o gamau yn cael eu cymryd i gefnogi'r staff yn unigol.

- 2.10 Nid oedd unrhyw hyfforddiant ar gyfathrebu, ymddygiad nac anableddau penodol yng nghalendr hyfforddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Byddai hyfforddiant penodol o fudd i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant anabl a dylid cynnwys ymarferwyr o'r tîm 16+, y dywedodd rhai ohonynt wrthym nad oeddent yn hyderus i gefnogi pobl ifanc anabl. Byddai hyfforddiant penodol yn gwella'r cymorth a ddarperir i blant anabl.
- 2.11 Mae'r broses lle mae rheolwyr yn ymateb i bryderon a godir gan y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau plant yn datrys y rhan fwyaf o'r rhain o fewn 24 awr. Ychydig iawn o gwynion sy'n symud ymlaen i'r broses gwyno ffurfiol. Mae system ar gael i'r uwch-reolwyr oruchwylio cwynion a nodi gwersi i'w dysgu.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.12 Ni wnaeth uwch-reolwyr gymryd camau digonol nac amserol i ôl-lenwi staff ac adnoddau rheoli yn y Tîm Plant Anabl yn ystod y cyfnod estynedig pan oedd diffyg sylweddol yn y tîm. Gwnaeth uwch-reolwyr fyfyrion ar hyn yn ystod ein harolygiad a gwnaethant gytuno â'r canfyddiad hwn.
- 2.13 Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg i blant anabl a'u teuluoedd. Nid oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg wrth y 'drws ffrynt' (canolfan diogelu a chymorth amlasiantaeth) nac yn y Tîm Plant Anabl. Er i ni gael gwybod y byddai teulu sy'n gofyn am wasanaeth yn Gymraeg yn cael hyn, nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn casglu data ac felly ni allai ddangos a oedd yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol.
- 2.14 Roedd y wybodaeth ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am wasanaethau i blant anabl mewn perthynas â'r gwasanaethau a oedd ar gael wedi dyddio ac nid oedd yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol. Nid oedd unrhyw daflenni gwybodaeth ar gael i blant anabl mewn fformatau gwahanol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth gywir am wasanaethau i deuluoedd. Nid oedd ymarferwyr na rheolwyr yn defnyddio Dewis, y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer gwybodaeth am lesiant, yn rheolaidd am nad oeddent yn digon hyderus i'w defnyddio. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn datblygu ei adnodd ei hun. Nid oedd yn glir a oedd pobl yn cael eu cyfeirio at gronfa ddata Dewis yn y cyfamser.
- 2.15 Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen system sicrhau ansawdd sylfaenol, sy'n dibynnu ar archwiliadau o ffeiliau achos a ffeiliau goruchwylio yn bennaf. Nid yw fformat yr archwiliad ar gyfer ffeiliau achos yn adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n canolbwyntio ar broses yn hytrach nag ansawdd ac effeithiolrwydd mewnbyn ymarferwyr a phlant yn cyflawni eu canlyniadau a nodwyd. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wella'r systemau a'r prosesau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn ysgogi gwelliant o ran ymarfer.

2.16 Roedd rheolwr tîm y Tîm Plant Anabl yn gwneud penderfyniadau ar yr holl atgyfeiriadau, yn cymeradwyo'r holl gynlluniau gofal a chymorth ac yn cadeirio'r rhan fwyaf o gyfarfodydd gofal a chymorth, os nad pob un. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel dull o gynnal proses oruchwylio ar lefel reoli. Er bod hyn yn dangos cryn ymrwymiad, mae'n annhebygol o fod yn gynaliadwy. Dylai uwch-reolwyr ystyried dulliau goruchwylio effeithiol amgen ar lefel reoli, a'r adnoddau sydd eu hangen.

3. Partneriaethau ac integreiddio

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Mae gan yr awdurdod lleol bartneriaethau effeithiol a threfniadau integredig sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd**
- **Mae cynlluniau ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n gadael gofal yn seiliedig ar eu cryfderau, yn cynnwys y person ifanc yn llawn ac yn cynyddu eu potensial i fod yn annibynnol**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.1 Gwelsom dystiolaeth o waith amlasiantaeth da a oedd yn arwain at ganlyniadau da i bobl ifanc sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion a mwy o annibyniaeth. Gwelsom gyfathrebu da rhwng gweithwyr cymdeithasol ac athrawon a rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r therapydd galwedigaethol yn y Tîm Plant Anabl. Roedd lefel presenoldeb staff yr ysgol yng nghyfarfodydd y plant yn dda.
- 3.2 Gwelsom ffeil lle nad oedd digon o gyswllt rhwng ymarferwyr yn y Tîm Plant Anabl a'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasod (CAMHS) er mwyn sicrhau cymorth cydgysylltiedig i berson ifanc sy'n cael problemau iechyd meddwl. I'r gwrthwyneb, gwnaethom edrych ar ffeil achos arall lle roedd gwaith amlasiantaeth da gyda CAMHS a gwasanaethau pediatrig.
- 3.3 Gwelsom ffeiliau lle roedd gan bobl ifanc gynlluniau llwybr a chynghorwyr personol dynodedig. Roedd hyn yn cynnwys enghraifft lle roedd dymuniadau person ifanc yn wahanol i ddymuniadau ei rieni, a oedd wedi arwain at wneud penderfyniadau creadigol ynghylch trefniadau byw'n annibynnol. Fodd bynnag, gwelsom hefyd dystiolaeth o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a oedd yn troi'n 18 oed yn fuan, lle nad oedd cynlluniau llwybr ar waith ac nad oedd asesiadau ar gyfer cymhwysedd i gael gwasanaethau oedolion wedi'u cynnal eto. Nid yw'r ansicrwydd ynghylch trefniadau ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni yn darparu canlyniadau cadarnhaol o ran llesiant a gall wneud i bobl ifanc deimlo'n fwy pryderus. Gwnaethom edrych ar gynlluniau llwybr lle nad oedd unrhyw ganlyniadau wedi'u nodi ac ni allem fod yn sicr ynghylch y ffordd y caiff cynnydd ei fesur.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 3.4 Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd amlasiantaeth a oedd yn effeithiol ac yn dangos cydberthnasau proffesiynol cadarnhaol, gan gynnwys her adeiladol. Roedd absenoldeb cynrychiolydd iechyd mewn un cyfarfod wedi cyfyngu ar y broses o wneud penderfyniadau ac roedd angen cynnal cyfarfodydd pellach a oedd yn effeithio ar effeithlonrwydd. Cawsom sicrwydd bod cynrychiolwyr iechyd yn mynychu'n aml.

- 3.5 Disgrifiodd cynrychiolydd o heddlu Gwent drefniadau gweithio ar y cyd cryf mewn perthynas â diogelu. Nododd fod swyddogion yr heddlu hyderus perthnasol yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol â phlant anabl a defnyddio adnoddau arbenigol lle y bo'n briodol.
- 3.6 Roedd cynrychiolwyr addysg yn gadarnhaol ynghylch cydberthnasau gwaith effeithiol ac adeiladol mewn perthynas â phlant anabl. Roedd adolygiadau o ddatganiadau angen addysgol ychwanegol weithiau wedi'u cyfuno ag adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth, sy'n arfer da. Nododd staff addysgu mai diben cyfarfodydd amlasiantaeth oedd rhannu gwybodaeth am strategaethau cymorth effeithiol a llunio cynlluniau rheoli risg, a oedd yn gwella cysondeb dulliau gweithredu gyda phlant unigol. Gall cynnwys cynorthwywyr dysgu yn fwy mewn cyfarfodydd am blant ag anghenion cymhleth fod yn ddefnyddiol os ydynt yn gallu cyfleu gwybodaeth werthfawr am ddymuniadau'r plentyn.
- 3.7 Roedd rhai uwch-aelodau o staff iechyd yn ymwybodol o'r lleihad mewn adnoddau yn y Tîm Plant Anabl ac roeddent o'r farn bod hyn wedi cael effaith ar adolygiadau amlasiantaeth ar gyfer plant anabl mewn ysgolion prif ffrwd. Dylai uwch-reolwyr ymchwilio i hyn gyda'uartneriaid iechyd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion.
- 3.8 Disgrifiodd rheolwyr tai eu rôl gyda phobl ifanc wrth iddynt symud i wasanaethau oedolion, ac er yr ystyriwyd bod hyn yn gwella, gellid gwneud mwy i ddatblygu dulliau gweithio mewn partneriaeth ar y lefel weithredol. Ystyriodd ymarferwyr bod lleoli swyddog tai yn y tîm 16+ yn ddefnyddiol o ran hwyluso cyfathrebu rhwng asiantaethau. Roedd ystod fach o opsiynau llety ar gael i oedolion ifanc anabl yr oedd angen lefelau amrywiol o gymorth arnynt, ac roedd trefniadau pwrpasol ar waith ar gyfer nifer bach o bobl ifanc unigol. Nid oedd unrhyw brotocol y cytunwyd arno ar gyfer uwchgyfeirio rhwng asiantaethau a fyddai'n sicrhau bod yr oedi a'r rhwystrau sy'n effeithio ar bobl ifanc y mae angen tai arnynt yn cael eu codi a'u datrys yn effeithiol.
- 3.9 Nid oedd y cymorth i bobl ifanc aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed o dan drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Nid oedd gan weithwyr cymdeithasol yn y tîm maethu na gweithwyr cymdeithasol plant ddealltwriaeth gyson o'u rolau mewn perthynas â hyn. Dylid ystyried y rhwystrau a nodir gan yr ymarferwyr a dylai'r uwch-reolwyr fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.
- 3.10 Roedd dealltwriaeth wahanol rhwng y Tîm Plant Anabl a gwasanaethau oedolion o ran effeithiolrwydd y broses i bobl ifanc symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Codwyd materion ynglŷn â chapasiti yn y tîm anabledau dysgu oedolion a swydd wag gweithiwr pontio am fod y rhain yn arwain at oedi i'r bobl ifanc. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar bobl ifanc am nad oeddent yn ymwybodol o'r cymorth parhaus y byddent yn ei gael na'u cynllun ar gyfer troi'n oedolyn. Gwnaethom dynnu sylw Pennaeth y Gwasanaeth at hyn ar unwaith. Gwnaethom edrych ar ffeiliau lle roedd oedi yn amlwg ac rydym yn disgwyl i uwch-reolwyr nodi pa mor helaeth yw'r oedi hwn. Mae angen adolygu a datrys y mater hwn ar fyrder er budd y bobl ifanc anabl.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 3.11 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ychwanegu adnoddau i'r Tîm Plant Anabl er mwyn adolygu plant ag anghenion meddygol cymhleth a chymryd rhan mewn trafodaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am gyllido a chyfrifoldeb am orchwyllo o dan drefniadau Gofal Parhaus. Mae hwn yn faes cymhleth. Cawsom sicrwydd nad oedd unrhyw oedi o ran sicrhau bod y plant yn cael gofal priodol o ganlyniad i drafodaethau cyllido, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyn. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ceisio'n briodol egluro'r trefniadau a gweithio tuag at ddealltwriaeth ar y cyd o'r canllawiau sydd ar gael gyda'r bwrdd iechyd.
- 3.12 Roedd rheolwyr wedi nodi bod angen goruchwyliaeth feddygol a hyfforddiant ar gyfer rhai cynorthwyr personol a oedd yn darparu gofal i blant anabl ag anghenion meddygol. Roeddem ar ddeall bod rheolwyr yn mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.
- 3.13 Roedd plant yn wynebu amseroedd aros hir i gael eu hasesu ar gyfer diagnosis posibl o awtistiaeth a oedd yn cael effaith sylweddol ar deuluoedd a oedd yn ceisio deall eu plentyn a gwybod sut i ofalu amdanynt yn y ffordd orau. Gwnaeth llawer o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw godi'r pwysau sydd ar y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) fel problem fawr. Cawsom wybod am brosiect peilot wedi'i arwain a'i ariannu gan iechyd i gefnogi teuluoedd sydd â phlentyn ag anabledd dysgu, lle mae risg o deulu yn chwalu, a darparu gwasanaeth ymyrryd yn gynnar.
- 3.14 Gwnaeth staff iechyd nodi bod y broses bontio yn faes blaenoriaeth lle mae angen mwy o weithio ar y cyd. Roedd meysydd i'w gwella o ran iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig lle mae'r cyfrifoldeb am oruchwyliaeth feddygol rhai pobl ifanc ag anghenion meddygol cymhleth yn cael ei drosglwyddo i'r meddyg teulu o'r gwasanaeth pediatrig. Roedd protocol pontio Gwent a'r canllaw cysylltiedig ar gyfer rhieni wedi dyddio o ran deddfwriaeth gofal cymdeithasol a dylid eu hadolygu.
- 3.15 Roedd ysgogiad newydd ar gyfer mwy o gydweithio strategol rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn nodi tai ar gyfer teuluoedd â phlant ac oedolion ifanc anabl, sy'n addas i'w hanghenion neu sy'n gallu cael eu haddasu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw strategaeth gomisiynu benodol ar gyfer plant anabl. Nid oedd unrhyw waith ffurfiol i asesu anghenion yn y dyfodol am leoliadau na llety. Nid oeddem yn gallu nodi'r ffordd roedd gwybodaeth o'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn cael ei defnyddio. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynnal cofrestr o blant anabl, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- 3.16 Er bod Pennaeth y Gwasanaeth wedi rhoi gwybod i ni bod bwriad i gynyddu darpariaeth breswyl a seibiannau byr, nid oedd unrhyw gynllun i fynd i'r afael â'r galw am seibiannau byr yn y byrdymor na'r tymor canolig. Rydym yn deall y caiff strategaeth recriwtio ei datblygu er mwyn dod o hyd i ofalwyr maeth ar gyfer plant anabl. Nid ymgynghorwyd â phlant anabl na'u teuluoedd am eu barn am y gwasanaethau yr oedd eu hangen.

- 3.17 Nid oedd comisiynwyr yn ystyried mesurau canlyniadau a gynhyrchwyd gan wasanaethau cymorth a gomisiynwyd wrth adolygu contractau. Er i ni weld un enghraifft o drefniadau gofalus o ran monitro contract, yn gyffredinol, mae comisiynu a threfniadau monitro contract mwy cadarn ar gyfer plant anabl yn faes blaenoriaeth i'w wella.
- 3.18 Rhoddodd y cyfarwyddwr wybod i ni bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn datblygu ei ddull comisiynu ar y cyd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a bod is-grŵp wedi'i neilltuo ar gyfer hyn. Roedd dulliau ariannu ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill a'r bwrdd iechyd ar gamau amrywiol. Cydnabyddwyd bod angen datblygu'r berthynas strategol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r bwrdd iechyd ymhellach ac rydym yn hyderus y caiff hyn ei gyflawni dros amser. Dylai'r gyfraith newydd mewn perthynas â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol ysgogi mwy o gydweithio rhwng y gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau plant, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhan o'r gwaith cynllunio i roi hyn ar waith.

4. Atal ac ymyrraeth gynnar

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Dull strategol a gynlluniwyd i ddarparu cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol amserol a chymesur**
- **Caiff plant anabl gymorth mewn cymunedau gwydn i gyflawni eu llawn botensial; i fyw, dysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

4.1 Roedd rhieni'n gwerthfawrogi gwasanaethau cymunedol a oedd yn cynnig cyfleoedd chwarae a chymdeithasol i'w plant a chymorth iddyn nhw eu hunain. Roedd rhieni plant sydd ag awtistiaeth yn gwerthfawrogi grŵp cymorth dynodedig. Roedd rhieni ac ymarferwyr hefyd yn canmol y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o gyfeirio, lle roedd rhieni'n cael gwybodaeth am wasanaethau chwarae a gwasanaethau iechyd a oedd yn addas i'w plant.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 4.2 Dangosodd gwybodaeth am berfformiad ar draws gwasanaethau plant nad oedd angen i wasanaethau cymdeithasol statudol ymyrryd mewn perthynas â theuluoedd a oedd yn cael gwasanaethau help cynnar ar ddiwedd yr ymwneud. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd a oedd yn cael cymorth gan wasanaeth ymateb cyflym Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mewn argyfwng yn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt o'r cychwyn.
- 4.3 Roedd amrywiaeth o wasanaethau a oedd yn seiliedig ar weithgareddau ar gyfer plant anabl yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a oedd yn cael eu cynnal gan asiantaethau trydydd sector ac elusennau lleol. Roedd y rhain yn darparu cyfleoedd chwarae a gweithgareddau i blant anabl ar ôl ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Roedd rhestr aros ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd yn darparu rhai gwasanaeth cymorth i blant anabl a'u teuluoedd. Roedd staff y gwasanaethau yn mynychu adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth y plant, a oedd yn hybu cymorth cydlynol. Roedd adnoddau penodedig i blant anabl a'u teuluoedd yn y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn gyfyngedig iawn a byddai adolygu'r cylch gwaith a digonolrwydd yn ddefnyddiol.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

4.4 Mae'r cyfarwyddwr o'r farn y byddai cynyddu ymyriadau cynnar a gwasanaethau ataliol o fudd i deuluoedd â phlant anabl ac yn lleihau nifer y plant y mae angen gwasanaethau statudol arnynt. Caiff tudalen we i helpu teuluoedd i gael gwybodaeth am gymorth lleol ei lansio ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i ymgynghoriad a gofynion y cynllun gweithredu digonolrwydd chwarae.

Dull

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hystyried. Gwelsom gyfanswm o 45 o ffeiliau achos a gwnaethom ddewis sampl o 15 lle ceisiwyd barn y plant, y rhieni, yr ymarferwyr a'r rheolwyr tîm. Gwnaethom siarad â thua 30 o rieni a sawl plentyn. Cynhaliwyd arolwg i gasglu barn y rhieni a chafwyd 10 ymateb.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o ymarferwyr gofal cymdeithasol a'u rheolwyr, aelodau etholedig ac uwch-swyddogion. Gwnaethom ddsbarthu arolwg i staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant anabl. Ymatebodd 77 ohonynt i'r arolwg hwn.

Gwnaethom edrych ar 13 o gofnodion o oruchwyliaeth rheolwr llinell gan bedwar ymarferydd a rheolwr. Edrychwyd ar sampl o dair cwyn a gwybodaeth gysylltiedig. Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol. Gwnaethom arsylwi ar dri chyfarfod amlasiantaeth berthnasol.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o staff gweithredol a strategol o'r bwrdd iechyd lleol a sefydliadau darparwyr perthnasol.

Yr Iaith Gymraeg

Gwnaethom sicrhau bod arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg ar gael a darparwyd y cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhannau o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant, rhieni, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys cydweithwyr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.